

Trefn Gwasanaeth

Ar gyfer Wythnos
Cymorth Cristnogol 2025

Gorlawn â gobaith

Order of Service

for Christian Aid Week 2025

Abounding hope



cymorth
cristnogol
christian
aid

80 mlynedd
years

Aurelia, ffermwr ysbydoledig
sy'n byw yn Guatemala.

Aurelia, an inspirational
farmer living in Guatemala.



Mae Aurelia yn ffermwr, yn arweinydd cymunedol, yn fam ac yn nain sy'n byw yn ardal Alta Verapaz yn Guatemala.

Diolch am ymuno â ni i addoli a gweddïo yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

Thema ein deunyddiau gwasanaeth yw 'gobaith diderfyn'. Drwy weddi, ysgrythur a chân, byddwn yn archwilio'r gobaith sydd gennym drwy Iesu Grist. Byddwn yn dysgu am bŵer gobaith hyd yn oed yn yr amgylchiadau mwyaf heriol. Byddwn hefyd yn clywed gan Aurelia, sy'n arweinydd cymunedol ac yn ffermwr, sy'n perthyn i gymuned frodorol y Q'eqchi (sy'n cael ei ynganu fel Co-WÊ-tsi) yn Gutemala. Wrth i'w chnydau farw o flaen ei llygaid, gall Aurelia weld effeithiau dinistriol yr argyfwng hinsawdd drosti hi ei hunan. Ond mae hi'n dal i fod yn llawn gobaith. Mae Aurelia wedi ymroi i wasanaethu ei chymdogion, fel eu bod, gyda'i gilydd, yn gallu rhannu dyfodol mwy diogel.

Defnyddio'r adnodd hwn

Rydyn ni wedi dylunio'r Trefn Gwasanaeth hwn i fod yn hyblyg. Mae croeso i chi gopïo a gludo elfennau rydych chi am eu defnyddio yn eich addoliad a mae croeso i chi ddefnyddio ganeuon neu emynau o'ch dewis ar gyfer eich gwasanaeth.



Aurelia is a farmer, community leader, mother and grandmother living in the Alta Verapaz region of Guatemala.

Thank you for joining us in worship and prayer this Christian Aid Week.

The theme of our service materials is 'abounding hope'. In prayer, scripture and song we'll explore the hope that is ours through Jesus Christ. We'll learn about the power of hope even in the most challenging circumstances. We'll also hear from Aurelia, a community leader and farmer, who belongs to Guatemala's Indigenous Q'eqchi' (pronounced Co-WAY-chee) community. As her crops die before her eyes, Aurelia can see the devastating impacts of the climate crisis first-hand. But she continues to abound in hope. Aurelia has dedicated herself to serving her neighbours, so that together they can share a more secure future.

Using this resource

We've designed this Order of Service to be flexible. You're welcome to copy and paste any elements you want to use in your worship and please do use any songs or hymns of your choice for your service.

Gair gan Aurelia ac Amelia

Yn ein ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol, byddwch yn dysgu mwy am Aurelia ac aelod arall o'r gymuned Q'eqchi' – Amelia. Mae Amelia yn fam i ddau ac yn gôl-geidwad i'r tîm pêl-droed lleol, ac mae'n ffermio tir sydd wedi bod yn ei theulu ers cenedlaethau. Mae hi'n dibynnu ar ffermio i fwydo ei phlant. Ond mae'r argyfwng hinsawdd yn lladd cnydau gwerthfawr Amelia hefyd. Dyna pam mae hi'n herio ei hun i ddysgu technegau ffermio newydd. Mae Amelia eisiau sicrhau bod ei phlant yn cael deiet maethlon heddiw a rhagolygon gwell yfory.

Gellir llwytho ein ffilm i lawr o caweek.org/Resources cyn eich gwasanaeth, neu ei ffrydio ar ein gwefan neu ein sianel YouTube.

Fel arall, fe welwch gyfres o flychau testun yn yr adnodd hon sy'n cynnwys darlleniadau byr i aelodau o'ch eglwys eu rhannu ar lafar. Mae'r darlleniadau hyn yn eich galluogi i glywed yn uniongyrchol gan Aurelia am ei phrofiadau.



Amelia gyda'i merch bedair oed, Yakelin.

Casglu ar gyfer Cymorth Cristnogol

Os ydych chi'n bwriadu cymryd casgliad ar gyfer Cymorth Cristnogol yn eich gwasanaeth, diolch! Bydd eich rhoddion yn ein galluogi i barhau â'n gwaith hanfodol yn Guatemala a ledled y byd.

Mae sawl ffordd wahanol o roi, gan gynnwys ein hamlenni coch, drwy roddion ar-lein a thrwy greu tudalen codi arian. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i gynnal casgliad Cymorth Cristnogol neu godi arian yn caweek.org/Collections a caweek.org/Fundraising

Popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2025

Yn ogystal â'r Trefn Gwasanaeth hwn, mae rhagor o adnoddau ar gyfer eich eglwys ar gael ar ein gwefan yn caweek.org/Resources a caweek.org/Worship

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sleidiau PowerPoint i'w defnyddio yn eich addoliad.
- Taflen weithgareddau i blant.
- Ein ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol.



Hear from Aurelia and Amelia

In our Christian Aid Week film, you'll learn more about Aurelia and another member of the Q'eqchi' community – Amelia. A mother of two and a goalkeeper on the local football team, Amelia farms land that's been in her family for generations. She relies on farming to feed her children. But the climate crisis is killing Amelia's precious crops too. That's why she's challenging herself to learn new farming techniques. Amelia wants to ensure her children have a nutritious diet today and better prospects tomorrow.

Our film can be downloaded from caweek.org/Resources in advance of your service, or streamed on our website or YouTube channel.

Alternatively, you'll find a series of text boxes in this resource containing short readings for members of your church to share aloud. These readings enable you to hear directly from Aurelia about her experiences.



Amelia with her daughter Yakelin, aged four.

Collecting for Christian Aid

If you're planning to take a collection for Christian Aid at your service, thank you! Your donations will enable us to continue our vital work in Guatemala and around the world.

There are lots of different ways to donate, including our red envelopes, through donations online and by setting up a fundraising page. Find out more about how to run a Christian Aid collection or fundraise at caweek.org/Collections and caweek.org/Fundraising

All you need for Christian Aid Week 2025

In addition to this Order of Service, you'll find more resources for your church on our website at caweek.org/Resources and caweek.org/Worship

These include:

- PowerPoint slides to use in your worship.
- A children's activity sheet.
- Our Christian Aid Week film.

Trefn y Gwasanaeth

Cyflwyniad

Croesawch eich cymuned yn eich geiriau eich hun.

Mae ein gwasanaeth heddiw yn ymwneud â gobaith: y gobaith rydym yn ei rannu drwy lesu Grist, a'r gobaith y cawn ein galw i'w roi ar waith drwy gydol ein bywydau. Yn y gwasanaeth hwn, byddwn yn clywed gan Aurelia, sy'n byw yn rhanbarth Alta Verapaz yn Guatemala. Mae cymunedau brodorol fel un Aurelia wedi gweld eu hunain beth yw effaith yr argyfwng hinsawdd a chamfanteisio diwydiannol, gydag afonydd yn sychu, cnydau'n methu a ffynonellau bwyd dan fygythiad.

Ond nid yw Aurelia am roi'r ffidil yn y to. 'Rydw i wir yn rhoi fy mywyd i fy nghymdogion,' dywedodd wrth Cymorth Cristnogol. Mae cariad Aurelia at ei chymdogion a'i gobaith diderfyn yn ei chynnal wrth iddi weithio i drawsnewid ei rhagolygon hi ei hun a rhagolygon ei chymuned.

Wrth i ni ddod at ein gilydd, gadewch i ni weddio dros y rhai fel Aurelia y mae eu gobaith yn gorlifo i weithredu. A gadewch i ni geisio dilyn ôl troed Aurelia yn ein hymrwymiad ein hunain i lesiant ein cymdogion.

Emyn neu gân

Galwad i addoli

Gweddïwn gyda'n gilydd i'n Harglwydd:

Roddwr y dŵr bywiol, rydyn ni'n sychedu am dy bresenoldeb.

Boed i'th gariad fod arnom, wrth i ni obeithio ynot ti.

Bara'r bywyd, rydym yn dymuno am dy air.

Boed i'th gariad fod arnom, wrth i ni obeithio ynot ti.

Yr un sanctaidd, rwyt ti'n paratoi llwybr o'n blaenau, ac rydyn ni'n ceisio cerdded yn dy ffyrdd.

Boed i'th gariad fod arnom, wrth i ni obeithio ynot ti.

Stori Aurelia – rhan un

Yn rhanbarth Alta Verapaz Guatemala, mae 90% o bobl yn byw mewn tlodi. Mae'r rhanbarth yn gartref i bobl Frodorol y Q'eqchi' (Co-WÊ-tsi). Mae dynion yn y gymuned yn aml yn chwilio am waith i ffwrdd o'u cartrefi, tra bo menywod yn tyfu cnydau i fwydo eu teuluoedd.

Mae Aurelia yn arweinydd cymunedol, yn fam i wyth o blant ac yn fam-gu annwyl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae tymheredd uchel a phatrymau tywydd annisgwyl wedi taro ffermwyr fel Aurelia yn galed. Mae ffynonellau dŵr yn sychu neu'n cael eu llygru gan ddiwydiant.

Mae Aurelia ac phobl eraill lle mae hi'n byw yn cerdded am tua phedair awr bob dydd dros ddwy daith y mae'n rhaid iddynt eu gwneud i gasglu dŵr glân a diogel o ffynnon 'cenote' – llynodwll naturiol fel ogof, gyda dŵr ar y gwaelod.



Order of Service

Introduction

Welcome your community in your own words.

Our service today is about hope: the hope that we share through Jesus Christ and the hope we're called to show in action throughout our lives. In this service, we'll hear from Aurelia, who lives in the Alta Verapaz region of Guatemala. Indigenous communities like Aurelia's have seen first-hand the impact of the climate crisis and industrial exploitation, with rivers drying up, crops failing and food under threat.

But Aurelia won't give up. 'I really give my life to my neighbours,' she told Christian Aid. Aurelia's love for her neighbours and abounding hope sustain her as she works to transform her prospects and those of her community.

As we gather together, let us pray for those like Aurelia whose hope overflows into action. And let us seek to follow in Aurelia's footsteps in our own commitment to the good of our neighbours.

Hymn or song

Call to worship

We pray together to our Lord:

Giver of living water, we thirst for your presence.

Let your steadfast love be upon us, as we hope in you.

Bread of life, we hunger for your word.

Let your steadfast love be upon us, as we hope in you.

Holy one, you set a path before us, we seek to walk in your ways.

Let your steadfast love be upon us, as we hope in you.

Aurelia's story – part one

In the Alta Verapaz region of Guatemala, 90% of people are living in poverty. The region is home to the Indigenous Q'eqchi' (Co-WAY-chee) people. Men in the community often seek work away from their homes, while women grow crops to feed their families.

Aurelia is a community leader, a mother of eight and a beloved grandmother. In recent years record high temperatures and unpredictable weather patterns have hit farmers like her hard. Water sources are drying up or being polluted by industry.

Aurelia and others from the place where she lives walk for around four hours each day during the two trips they must make to collect safe, clean water from a cenote – a natural sinkhole like a cave, with water at the bottom.

Gweddï agoriadol (Yn seiliedig ar Effesiaid 1)

Dduw Grasol,
rwyt ti'n galw'r holl greadigaeth ynghyd
mewn cariad.
Wrth i ni gyfarfod heddiw,
goleua ein calonnau,
er mwyn i ni allu gweld y gobaith
rwyt ti wedi ein galw ni ato.
Fel dy blant, boed i ni
dyfu yn debyg i ti,
yn llawn tosturi ac yn dyheu am gyfiawnder.
Nertha ni i fyw ein galwad,
a rhoi ffydd, gobaith a chariad ar waith.
Amen.



Aurelia (ar y chwith) a'i
chymdoges, Sofia, yn gweddïo
cyn cynhyrchu eu blawd cacao.

Gweddï gyffes

Dad Trugarog, rwyt ti'n ein herio ni drwy eiriau proffwydi.
Rydym yn cyfaddef ein bod ni wedi methu gwrando,
neu wedi esgus peidio â chlywed.
'Gadewch i gyfiawnder lifo fel dŵr,' fe ddywedaist ti wrthym ni.
Ond rydym yn blocio'r nentydd sy'n llifo ac yn draenio'r afonydd yn sych.
Yn dy drugaredd:

Maddau i ni a helpa ni.

Arglwydd cariadus, daethost nid i gael dy wasanaethu ond i wasanaethu.
Rydym yn cyfaddef ein bod ni wedi cuddio ein talentau,
ac wedi troi oddi wrth y rhai sydd angen ein doniau.
'Câr dy gymydog fel ti dy hun,' yw dy orchymyn i ni.
Ond rydyn ni'n poeni y bydd cariad o'r fath yn costio gormod i ni.
Yn dy drugaredd:

Maddau i ni a helpa ni.

Ysbryd Glân, rwyt ti'n ein grymuso gyda gobaith diddiwedd.
Rydym yn cyfaddef ein bod ni wedi gadael i siniciaeth gael y gorau arnom,
ac wedi datgan na all y byd newid.
Pan fyddwn ni'n anobeithio, rwyt ti yno i'n cysuro.
Ond rydyn ni'n ceisio dibynnu arnom ni ein hunain yn unig.
Yn dy drugaredd:

Maddau i ni a helpa ni.





Opening prayer (Based on Ephesians 1)

Gracious God,
you gather all creation together in love.
As we meet today,
enlighten our hearts,
so that we may perceive the hope to
which you have called us.
As your children, may we
grow into your likeness,
filled with compassion and desiring justice.
Embolden us to live out our calling,
and put faith, hope and love into action.
Amen.



Aurelia, left, and her neighbour, Sofia, pray before producing their cacao flour.

Prayer of confession

Merciful Father, you challenge us through the words of prophets.
We confess that we have failed to listen,
or pretended not to hear.
'Let justice roll down like water,' you tell us.
But we block the flowing streams and drain the rivers dry.
In your mercy:
Forgive us and help us.

Loving Lord, you came not to be served but to serve.
We confess that we have buried our talents,
and turned away from those who need our gifts.
'Love your neighbour as yourself,' you command us.
But we worry that such love will cost us too much.
In your mercy:
Forgive us and help us.

Holy Spirit, you empower us with abundant hope.
We confess that we have given in to cynicism,
and declared that the world cannot change.
When we despair, you are there to comfort us.
But we try to rely on ourselves alone.
In your mercy:
Forgive us and help us.



Stori Aurelia – rhan dau

Mae Aurelia wedi gweld yn uniongyrchol effaith yr argyfwng hinsawdd. **‘Mae newid yn yr hinsawdd wedi bod yn lladd ein cnydau, a dyma ein bwyd ni,’** meddai. **‘Wrth i’r planhigion farw, y peth nesaf fydd yn marw yw ni.’**

Ond nid yw Aurelia am roi’r ffidil yn y to. Mae Congcoop, partner Cymorth Cristnogol yn Guatemala, yn cefnogi cymunedau gydag adnoddau amaethyddol a hyfforddiant sy’n eu helpu i fod yn fwy gwydn yn yr hinsawdd sydd ohoni. Manteisiodd Aurelia ar y cyfle i ennill sgiliau newydd gyda Congcoop. Mae hi’n cyfuno ei gwybodaeth a’i dealltwriaeth ddofn o’i thir â thechnegau arloesol. Mae hi’n gwneud gwrtaith organig, yn adeiladu systemau casglu dŵr glaw, a thyfu amrywiaeth ehangach o gnydau.

Gweddi Wythnos Cymorth Cristnogol 2025

(I’w ddefnyddio fel Colect os yw hyn yn rhan o’ch traddodiad.)

Arglwydd, rwyt ti’n cadw dy addewidion yn ffyddlon.
Drwy’r Ysbryd rwyt ti’n ein bendithio gyda gobaith diddiwedd.
Pan fydd pŵer yn ceisio tawelu cyfiawnder,
rho’r dewrder i ni godi ein llais.
Pan fydd terfyn ar dlodi yn ymddangos ymhell i ffwrdd,
adnewyddda ein ffydd yn dy deyrnas a ddaw ar y ddaear.
Pan fydd ein cymydog yn estyn allan,
ysbrydola ni i ymateb â chariad sy’n gorlifo.
Yn enw Iesu,
Amen.

Darlleniad cyntaf:

Ar gyfer gwasanaethau
ddydd Sul 11 Mai neu ar
adegau eraill::

Actau 9:36-43

‘Yr oedd hon yn llawn o
weithredoedd da ac o
elusennau.’

Ar gyfer
gwasanaethau
ddydd Sul 18 Mai
neu ar adegau eraill:

Actau 11:1-18

‘A dywedodd yr
Ysbryd wrthyf am
fynd gyda hwy heb
amau dim.’

Ar gyfer
gwasanaethau ar
 unrhyw adeg:

Joel 1:17-20

‘Y mae’r anifeiliaid
gwylltion yn llefain
arnat, oherwydd
sychodd y nentydd a
difaodd tân borfeydd
yr anialwch.’

Aurelia's story – part two

Aurelia has seen first-hand the impact of the climate crisis. **'Climate change has been killing our crops, and this is our food,'** she says. **'As the plants are dying, the next thing that will die is us.'**

But Aurelia isn't giving up. Congcoop, Christian Aid's partner in Guatemala, supports communities with agricultural resources and training that help them to become more climate resilient. Aurelia took up the opportunity to gain new skills with Congcoop. She's combining her deep knowledge and understanding of her land with innovative techniques. She's making organic fertiliser, constructing rainwater collection systems, and growing a wider range of crops.

A prayer for Christian Aid Week 2025

(To be used as a Collect if this is part of your tradition.)

Lord, you are faithful to your promises.
Through the Spirit you bless us with abounding hope.
When power seeks to silence justice,
give us the courage to raise our voice.
When an end to poverty seems far off,
renew our faith in your kingdom come on earth.
When our neighbour reaches out,
inspire us to respond with overflowing love.
In Jesus' name,
Amen.

First reading:

For services on
Sunday 11 May or
at other times:

Acts 9:36-43

'She was devoted to
good works and acts
of charity.'

For services on
Sunday 18 May or
at other times:

Acts 11:1-18

'The Spirit told me
to go with them
and not to make a
distinction between
them and us.'

For services at
any time:

Joel 1:17-20

'Even the wild animals
cry to you because
the watercourses are
dried up, and fire has
devoured the pastures
of the wilderness.'

Emyn neu gân

Ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol

Gwylwch yn caweek.org/Resources

Stori Aurelia – rhan tri

Gyda chymorth Congcoop, mae Aurelia yn defnyddio ei chynhaeaf cacao i wneud cynhyrchion siocled i'w gwerthu mewn marchnad leol. **'Rydw i'n teimlo'n hapus ac yn ddiolechgar iawn pan fydda i'n paratoi siocled,'** meddai Aurelia. **'Rydw i'n gwneud cynnyrch coco gyda'm holl galon! Efallai mai dyna pam mae blas mor dda arnynt!'**

Mae gan Aurelia deulu mawr aml-genhedlaeth i ofalu amdano, o'i thad Ricardo i'w hwyron a'i hwyresau niferus. Ond mae hi bob amser yn awyddus i helpu mwy o bobl yn ei chymuned. **'Rydw i wir yn rhoi fy mywyd i fy nghymdogion, gan rannu fy ngwybodaeth gyda nhw,'** dywedodd wrth Cymorth Cristnogol. Er gwaethaf y teithiau hir i gasglu dŵr a'r angen i weithio ar ei fferm ei hun, mae Aurelia yn dal i ddod o hyd i amser i gefnogi menywod eraill a dangos iddynt y sgiliau mae hi wedi eu dysgu drwy ei hyfforddiant.

Ail ddarlleniad:

Ar gyfer gwasanaethau ddydd Sul 11 Mai neu ar adegau eraill:

Ioan 10:22-30

'Y mae fy nefaidd i yn gwrandao ar fy llais i, ac yr wyf fi'n eu hadnabod, a hwythau'n fy nghanlyn i. Yr wyf fi'n rhoi bywyd tragwyddol iddynt; nid ânt byth i ddistryw.'

Ar gyfer gwasanaethau ddydd Sul 18 Mai neu ar adegau eraill:

Ioan 13:31-35

'Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chiwithau i garu'ch gilydd.'

Ar gyfer gwasanaethau unrhyw bryd:

Marc 6:30-44

Atebodd yntau hwy, "Rhowch chwi rywbeth i'w fwyta iddynt." Meddent wrtho, "A ydym i fynd i brynu bara gwerth dau gant o ddarnau arian, a'i roi iddynt i'w fwyta?"

Pregeth neu sgwrs



Hymn or song

Christian Aid Week film

Watch at caweeek.org/Resources

Aurelia's story – part three

With Congcoop's support, Aurelia is using her cacao harvest to make chocolate products to sell at a local market. **'I feel very joyful and grateful when I'm preparing chocolate,'** Aurelia says. **'I make cocoa products with all my heart! Perhaps that's why they have such a good flavour!'**

Aurelia has a big multi-generational family to take care of, from her father Ricardo to her many grandchildren. But she's always looking to help more people in her community. **'I really give my life to my neighbours, sharing my knowledge with them,'** she told Christian Aid. Despite the long journeys to collect water and the need to work on her own farm, Aurelia still finds time to support other women and show them the skills she's learned through her training.

Second reading:

For services on
Sunday 11 May or
at other times:

John 10:22-30

'My sheep hear my voice. I know them, and they follow me. I give them eternal life, and they will never perish.'

For services on
Sunday 18 May or
at other times:

John 13:31-35

'I give you a new commandment, that you love one another. Just as I have loved you, you also should love one another.'

For services at
any time:

Mark 6:30-44

'They said to him, "That would take more than half a year's wages! Are we to go and spend that much on bread and give it to them to eat!"'

Sermon or talk



Gweddi eiriol

(Yn seiliedig ar Micha 7:7)

Gadewch i ni weddio gyda'n gilydd.
Rydyn ni'n edrych yn obeithiol am yr Arglwydd:
bydd ein Duw yn ein clywed.

Arglwydd, clyw ni wrth i ni weddio dros dy greadigaeth.
Gweddiwn dros ddiwedd ar ddinistrio byd natur.
Rydyn ni'n dal cymunedau ger dy fron sy'n gwylio
eu tir yn crino a'u hafonydd yn sychu.
Gweddiwn dros ffermwyr fel Aurelia sy'n gofalu'n dyner
am eu cnydau, dim ond i'w gweld yn gwywo a marw.
Rydyn ni'n galaru am yr hyn sydd eisoes wedi cael ei golli a'i ddifrodi.
Dangos i ni sut mae gweithredu yn awr i helpu'r rhai mae'r argyfwng
hinsawdd yn effeithio fwyaf arnynt.
Nertha ni fel y gallwn ddefnyddio ein pŵer i wneud i newid ddigwydd.
Rydyn ni'n edrych yn obeithiol am yr Arglwydd:
bydd ein Duw yn ein clywed.

Arglwydd, clyw ni wrth i ni weddio dros bawb sy'n byw mewn tlodi.
Dros blant na fyddant yn gallu bwyta pryd o fwyd maethlon heddiw,
neu'n methu fforddio mynd i'r ysgol.
Llenwa ni ag awydd hynod benderfynol i roi terfyn ar dlodi.
Boed i ni glywed cri'r rhai sydd wedi eu gwrthio i'r cyrion yn ein byd.
Boed i ni eiriol drostyn nhw am gymdeithas fwy cyfartal a chyfiawn.
Rydyn ni'n edrych yn obeithiol am yr Arglwydd:
bydd ein Duw yn ein clywed.

Arglwydd, clyw ni wrth i ni weddio'n ddiolchgar dros y rhai sy'n creu
heddwch a newid.
Rydym yn diolch i arweinwyr cymunedol fel Aurelia, y mae ei gobaith
yn rym iddi.
Gweddiwn dros Congcoop, partner Cymorth Cristnogol yn Guatemala,
sy'n cynorthwyo cymunedau drwy hyfforddiant.
Cryfha'r rhai sy'n gweithio dros heddwch a diogelu hawliau dynol.
Gweddiwn dros heddwch cyfiawn lle bynnag y ceir gwrthdaro, gan
feddlwl yn arbennig am...
*[Gweddiwch yma dros lefydd a phobl y mae rhyfel a thrais yn effeithio
arnynt. Mae'n bosibl yr hoffech chi gynnwys gweddïau dros:*
Heddwch yn y Dwyrain Canol.
Diwedd ar y rhyfel yn Wcráin.
Y rhai mae gwrthdaro yn Swdan yn effeithio arnynt.
Mae partneriaid Cymorth Cristnogol sy'n gweithio yn Guatemala yn
sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei amddiffyn rhag trais a bod gan bob
un fynediad at system gyfiawnder gadarn.]
Rydyn ni'n edrych yn obeithiol am yr Arglwydd:
bydd ein Duw yn ein clywed.



Prayer of intercession

(Based on Micah 7:7)

Let us pray together.
We watch in hope for the Lord:
our God will hear us.

Lord, hear us as we pray for your creation.
We pray for an end to the destruction of the natural world.
We hold before you communities who are watching
their land become parched and their rivers dry up.
We pray for farmers like Aurelia who carefully tend
their crops, only to see them wither and die.
We grieve for what has already been lost and damaged.
Show us how to act now to help those most affected
by the climate crisis.
Energise us, that we may use our power to make change happen.
We watch in hope for the Lord:
our God will hear us.

Lord, hear us as we pray for all people living in poverty.
For children who will not be able to eat a nutritious meal today,
or cannot afford to attend school.
Fill us with a fierce determination to end the outrage of poverty.
May we hear the cries of those who are marginalised in our world.
May we speak up with them for a more equal and just society.
We watch in hope for the Lord:
our God will hear us.

Lord, hear us as we pray with thanksgiving for peacemakers and changemakers.
We give thanks for community leaders like Aurelia, whose hope is her power.
We pray for Congcoop, Christian Aid's partner in Guatemala, who support
communities through training.
Strengthen those working for peace and protecting human rights.
We pray for a just peace wherever there is conflict, thinking especially of...
*[Pray here for places and people affected by war and violence. You may wish to
include prayers for:*
Peace in the Middle East.
An end to the war in Ukraine.
Those affected by conflict in Sudan.
Christian Aid's partners working in Guatemala to ensure every person is
protected from violence and has access to a robust justice system.]
We watch in hope for the Lord:
our God will hear us.

Arglwydd, rwyf ti'n ein croesawu ni pan fyddwn ni'n drymlwythog
gyda gofid neu boen,
ynot ti, rydyn ni'n cael gorffwys.
Gweddiwn dros bawb rydym yn eu hadnabod sy'n sâl neu'n dioddef.
[Gan gofio'n arbennig am...]
Gweddiwn dros bawb sy'n galaru.
[Gan gofio'n arbennig am...]
Gweddiwn yn arbennig dros gymunedau sy'n byw mewn tldi ledled y
byd sydd wedi dioddef colledion mawr: colli cartrefi, colli mynediad at
ddŵr glân, colli aelodau o'r teulu.
Bendithia'r rhai sy'n galaru a rho dy gysur iddyn nhw.
Rydyn ni'n edrych yn obeithiol am yr Arglwydd:
bydd ein Duw yn ein clywed.

Arglwydd, gwrando arnom wrth i ni weddio dros y rhai y mae eu
gobaith yn gorlifo
i weithredu.
Rydym yn diolch i bawb sy'n rhoi, yn gweithredu ac yn gweddio
yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.
Boed i bob un ohonom geisio gwasanaethu ein cymdogion byd-eang.
Helpa ni i weld gwerth ein gwasanaeth cariadus, boed hynny
wrth i ni wneud paneidiau o goffi, ysgwyd bwcedi casglu, mentro ar
deithiau cerdded noddedig, neu gynnig cymorth mewn ffyrdd eraill.
Gwna ni yn dystion i ti, gan ddatgan dy deyrnas.
Rydyn ni'n edrych yn obeithiol am yr Arglwydd:
bydd ein Duw yn ein clywed.

Rydyn ni'n cynnig y gweddïau hyn yn enw Iesu.
Bydd ein Duw yn ein clywed.
Amen.

Aurelia a'i mam ar y daith hir yn ôl o
gasglu dŵr.





Lord, you welcome us when we are heavy laden with sorrow
or pain,
in you we find rest.

We pray for all those known to us who are sick or suffering.

[Remembering particularly...]

We pray for all those who are grieving.

[Remembering particularly...]

We pray especially for communities living in poverty around
the world who have suffered great losses: the loss of
homes, the loss of access to clean water, the loss of family
members.

Bless those who mourn and give them your comfort.

We watch in hope for the Lord:

our God will hear us.

Lord, hear as we pray for those whose hope overflows
into action.

We give thanks for all those giving, acting and praying
this Christian Aid Week.

May each of us seek to serve our global neighbours.

Help us to see the value of our loving service, whether
we make cups of coffee, shake collection buckets, step out
on sponsored walks, or offer support in other ways.

Make us your witnesses, proclaiming your kingdom.

We watch in hope for the Lord:

our God will hear us.

We offer these prayers in Jesus' name.

Our God will hear us.

Amen.

**Aurelia and her mother on the long
walk back from collecting water.**





Aurelia gyda rhai o'i hwyrion. (Ch-Dd)
Daily a Shen, ill dau yn 9, Karla, 7,
Nestor, 13, ac Andy, 8.

Gweithgaredd gweddi fyfyrion ar gyfer gwasanaethau neu grwpiau bach

Eisteddwch mewn cylch. Rhowch bowlen fawr o ddŵr ar fwrdd yng nghanol y cylch.

Gallech ychwanegu rhai diferion o olew naws masnach deg at y dŵr. Mae rhai olewau masnach deg fel lemonwelt yn aml yn cael eu cynhyrchu yn Guatemala.

Gwrandewch ar recordiad o *La Paz de la Tierra* (Heddwch y Ddaear), cân draddodiadol o Guatemala, a gyfieithwyd gan Christine Cardon ac a drefnwyd gan John Bell.

Wrth i'r gerddoriaeth chwarae, ewch at y bwrdd fesul un a dipio eich bysedd yn y dŵr. Gwnewch arwydd y Groes ar gefn eich llaw.

Pan fyddwch chi'n dychwelyd i'ch sedd, meddyliwch am Aurelia a menywod eraill yn ei chymuned yn cerdded yn bell bob dydd i gasglu dŵr. Gweddïwch yn dawel dros y menywod hyn a holl bobl Guatemala.

Gorffennwch drwy ddweud y geiriau hyn o'r gân gyda'ch gilydd: **'Boed i heddwch yr afonydd fod gyda chi, heddwch y cefnforoedd hefyd, heddwch dwfn yn llifo drosoch chi. Mae heddwch Duw yn tyfu ynoch chi.'**



Aurelia with some of her grandchildren. (L-R) Daily and Sheny, both 9, Karla, 7, Nestor, 13, and Andy, 8.

A meditative prayer activity for services or small groups

Sit in a circle. Place a large bowl of water on a table in the centre of the circle.

You could add some drops of fair trade essential oil to the water. Some fair trade oils such as lemongrass are often produced in Guatemala.

Listen to a recording of *La Paz de la Tierra* (*The Peace of the Earth*), a traditional Guatemalan song, translated by Christine Cardon and arranged by John Bell.

As the music plays, go to the table one by one and dip your fingers in the water. Make the sign of the Cross on the back of your hand.

When you return to your seat, think of Aurelia and other women in her community walking long distances every day to gather water. Pray silently for these women and for all the people of Guatemala.

End by saying these words from the song together: **'The peace of the rivers be with you, the peace of the oceans too, deep peace falling over you. God's peace growing in you.'**



Rhannu'r Tangnefedd

Os ydych chi fel arfer yn rhannu'r Tangnefedd yn eich addoliad, mae'n bosibl yr hoffech chi ddefnyddio'r adnod a ganlyn:

Gras a thangnefedd a amlhaer i chwi trwy adnabyddiaeth o Dduw ac Iesu ein Harglwydd! (2 Pedr 1:2)
Tangnefedd a fyddo gyda chi.

Stori Aurelia – rhan pedwar

Mae bywyd i Aurelia a'i chymuned yn dal yn anodd, ac wrth i'r argyfwng hinsawdd ddwysáu, mae'n ofni y bydd pethau'n mynd yn anoddach. Mae Aurelia yn gallu gweld effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y cyfnodau hir o sychder, stormydd a gwres ffyrnig. **'Roedd rhai'n dweud y byddai hyn yn digwydd yn y dyfodol,' meddai, 'ond mae wedi digwydd yn gynharach na'r disgwyl. Mae hyn yn peri pryder mawr i'n plant ac yn enwedig i'n hwyrion.'**

Mae ffermwyr brodorol yn aml dan bwysau i werthu eu tir i ddatblygwyr mawr, gan arwain at ragor o ddifrod amgylcheddol. Ond dywed Aurelia ei bod hi a'i chymdogion yn parhau i fod yn **'unedig'** ac yn **'ddewr'**. Ni fyddant yn rhoi'r ffidil yn y to. **'Rydw i eisiau dweud wrth roddwyr am barhau i gefnogi Cymorth Cristnogol,' meddai Aurelia, 'oherwydd, drwy Congcoop, maen nhw wedi bod yn ein cefnogi ni.'**

Emyn neu gân gyda chasgliad

Defnyddiwch yr amlenni ar eich sedd, neu ewch i caweek.org i wneud eich cyfraniad. Drwy lenwi'r slip Rhodd Cymorth, rydych chi'n helpu i wneud i'ch rhodd fynd ymhellach. Ystyriwch wneud cyfraniad rheolaidd i waith Cymorth Cristnogol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn yr amlen ac ar-lein.



Sharing the Peace

If you usually share the Peace in your worship, you may wish to use the following verse:

May grace and peace be yours in abundance in the knowledge of God and of Jesus our Lord.

(2 Peter 1:2)

Peace be with you.

Aurelia's story – part four

Life for Aurelia and her community remains tough, and as the climate crisis intensifies, she fears things will get tougher. Enduring droughts, storms and fierce heat, Aurelia can see the impacts of climate change accelerating. **'There was a prediction this would happen in the future,'** she says, **'but it has come earlier. This is very worrying for our kids and especially our grandkids.'**

Indigenous farmers are often under pressure to sell their land to big developers, leading to further environmental damage. But Aurelia says that she and her neighbours remain **'unified'** and **'courageous'**. They won't give up hope. **'I want to tell donors to continue supporting Christian Aid,'** Aurelia says, **'because through Congcoop, they've been supporting us.'**

Hymn or song with collection

Use the envelopes on your seat/pew, or visit caweek.org to make your contribution. By completing the Gift Aid slip, you're helping to make your giving go further. Please consider making a regular contribution to Christian Aid's work. More information is available about this on the envelope and online.



Aurelia yn dal y gwrtaith y dysgodd sut i'w wneud gyda chymorth ein partner, Congcoop. Mae hi bellach yn rhannu ei gwybodaeth gyda'i chymdogion.

Gweddï i ddiolch a chloi'r gwasanaeth

Dduw popeth, rwyt ti wedi ein bendithio'n helaeth.
Wrth i ni fynd allan o'r lle hwn,
helpa ni i fod yn gyfiawn, i garu trugaredd a cherdded
yn wylaidd gyda thi.
Rydym yn diolch i ti am waith hanfodol Cymorth
Cristnogol ac am bawb sy'n cynorthwyo'r gwaith hwn.
Boed i'th dosturi lifo drwy'r hyn y byddwn ni'n ei
wneud ac yn ei gynnig.
Dduw cariadus a ffyddlon, rho obaith i ni a'n hanfon
allan i'th wasanaethu, heddiw a phob diwrnod.
Amen.

Bendith

Dduw gobaith, llenwa ni â phob llawenydd a heddwch wrth gredu,
fel y gallwn orlifo â gobaith drwy rym yr Ysbryd Glân.
Amen.



Aurelia holding the fertiliser that she learned how to make with the support of our partner, Congcoop. She now shares her knowledge with her neighbours.

Prayer of thanksgiving and dismissal

God of all, you have abundantly blessed us.
As we go out from this place,
help us to do justly, love mercy and walk humbly with you.
We give thanks for the vital work of Christian Aid
and for all who support this work.
May your compassion flow through our actions and offerings.
Loving and faithful God, give us hope and send us out to serve you,
this day and every day.

Amen.

Blessing

God of hope, fill us with all joy and peace in believing,
that we may abound in hope by the power of the Holy Spirit.

Amen.

Aurelia yn creu blows
traddodiadol Q'eqchi'.

Aurelia makes a traditional
Q'eqchi' blouse.



cymorth
cristnogol
christian
aid

80 mlynedd
years

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851
The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid
June 2025 J516713 Photos: Christian Aid/Amy Sheppey

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851
Rhif cwmni 5171525. Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol.
© Cymorth Cristnogol Mehefin 2025 J516713 Llundain: Cymorth Cristnogol/Amy Sheppey